Adroddiad i'r	**Pwyllgor Craffu Perfformiad**
Dyddiad y cyfarfod	**14 Gorffennaf 2022**
Aelod/Swyddog Arweiniol	**Cynghorydd Gill German / Geraint Davies**
Awduron yr Adroddiad	**James Brown (CSDd), Jacquie Chan (GwE) a Mair Herbert (GwE)**
Teitl	**Sut y mae'r consortiwm rhanbarthol (GwE), mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol (ALl), yn cefnogi ysgolion gyda gweithredu'r Cwricwlwm Cymru Newydd ar ôl cyhoeddi Adroddiad Donaldson 'Dyfodol Llwyddiannus'**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Gweithredu Cwricwlwm i Gymru yn Ysgolion Sir Ddinbych.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Ar gais y Pwyllgor Craffu Perfformiad, mae'r adroddiad yma'n rhoi trosolwg o weithredu Cwricwlwm i Gymru a sut mae GwE a'r ALl yn cefnogi ei ddatblygiad yn ysgolion Sir Ddinbych.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Gwahoddir Aelodau Craffu i drafod manylion yr adroddiad yma a rhoi sylwadau yn unol â hynny.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Bydd y Cwricwlwm Cymru newydd yn cael ei weithredu gan bob ysgol gynradd ym mis Medi 2022. Bydd un ysgol uwchradd yn Sir Ddinbych yn ei weithredu yn 2022 i flwyddyn 7, ac mae gweddill yr ysgolion wedi dewis ei lansio ar y cyd gyda blynyddoedd 7 ac 8 ym mis Medi 2023. Mae cefnogaeth helaeth GwE yn digwydd ar lefel genedlaethol, clwstwr ac ysgol unigol.

4.2. Nid yw Cwricwlwm i Gymru yn darparu amcanion a chynnwys roedd y cwricwlwm blaenorol yn ei ddarparu, ond mae'n rhoi strwythur clir o sawl cyfansoddyn i sicrhau bod dysgwyr yn: uchelgeisiol a galluog; yn fentrus a chreadigol; yn iach a hyderus ac yn egwyddorol a gwybodus. Mae'r pedwar pwrpas yma'n ffurfio'r weledigaeth i bob dysgwr.

4.3. Mae arweinwyr GwE wedi bod â dull (a grëwyd yn lleol ac yn rhanbarthol yn unol â'r daith gweithredu genedlaethol) tuag at ddysgu proffesiynol ar gyfer ysgolion sydd yn mynd i'r afael â'r hyn sydd ei angen gan ysgolion mewn camau y gellir eu rheoli. Mae rhagor o ganllawiau ac adnoddau ar gyfer y cwricwlwm newydd yn cael eu llunio ac o fis Medi 2022, disgwylir y bydd ysgolion dal yn mireinio eu cwricwlwm, ac nid oes disgwyl iddynt fod â'r 'cynnyrch gorffenedig'. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid iddynt lunio crynodeb y tymor yma o'u cynlluniau dylunio cwricwlwm hyd yn hyn, a chychwyn cynllunio dulliau clwstwr i ddatblygiad 3-16 trwy gynllun pontio newydd ar gyfer 2022/23.

Dysgu a chefnogaeth broffesiynol - sut

4.4. Mae GwE wedi darparu amrywiaeth helaeth o ddysgu a chefnogaeth broffesiynol, a ddatblygwyd yn genedlaethol gan arweinwyr GwE yn gweithio ochr yn ochr â chonsortia eraill, a'i bersonoleiddio i anghenion ein hysgolion yn Sir Ddinbych. Dechreuodd y dysgu proffesiynol yma cyn y pandemig ac mae wedi symud ymlaen yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gan adeiladu ar ddysgu'n ymatebol. Mae tîm dysgu proffesiynol GwE wedi gweithredu gyda hyblygrwydd yn ystod y cyfnod yma, addysgu sut mae adnoddau a hyfforddi yn cael eu darparu yn ôl adborth gan yr ysgolion eu hunain yn ogystal â dysgu o'r pandemig. Er enghraifft, mae arweinwyr dysgu proffesiynol GwE wedi ymgynghori gydag awdurdodau lleol a phenaethiaid ynglŷn â sut a phryd i ail-ymgysylltu gyda dysgu proffesiynol. Mae adborth rheolaidd yn cael ei gasglu gan Benaethiaid Sir Ddinbych, er mwyn gwerthuso effaith ac ymateb i anghenion ysgolion.

Dysgu proffesiynol ar gyfer uwch arweinwyr

4.5. Ar y cychwyn yng ngwanwyn a haf 2021, roedd dysgu proffesiynol wedi'i anelu at benaethiaid ac uwch arweinwyr, ar arwain newid, datblygu gweledigaeth sy'n cael ei rannu a chynllunio ar gyfer newid cwricwlwm. Roedd hyn yn cynnwys

sesiynau a gyflwynwyd ar-lein, ac yna sesiynau dilynol gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant gydag ysgolion unigol. Cafodd pob sesiwn eu recordio, a'u gwylio'n aml ar wefan GwE. Roedd y gwaith yma'n galluogi uwch arweinwyr i allu canolbwyntio ar eu cyfeiriad strategol a sut i gefnogi staff trwy flaenoriaethu yr hyn sy'n bwysig, a datblygu diwylliant er mwyn meithrin diwygio cwricwlwm.

4.6. Yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol, mae rhagor o sesiynau dysgu proffesiynol wedi adeiladu ar yr effaith yma, gan alluogi uwch arweinwyr i lunio cynlluniau clir ar gyfer cynllunio, asesu a datblygu cwricwlwm, egwyddorion cynllunio a galluogi dysgu. Mae'r hyfforddiant yma wedi cynnwys adnoddau a modelau i ysgolion eu haddasu, megis dylunio cwricwlwm a rhesymeg cynllunio a chyflwyniadau gan ysgolion ynglŷn â sut maent wedi datblygu asesiad, gweledigaeth a chynllunio cwricwlwm.

Dysgu proffesiynol ar gyfer rheolwyr canol ac athrawon

4.7. Mae arweinwyr canol ac athrawon Sir Ddinbych wedi ymgysylltu ac elwa o ddysgu proffesiynol GwE ac maent wedi bod yn boblogaidd, gan fynychu cyfres o weithdai ar ddeall fframwaith Cwricwlwm i Gymru, Meysydd Dysgu a Phrofiad a datblygu mewn dysgu. Unwaith eto, yn ogystal â mynychu'r sesiynau ar-lein, mae ysgolion yn lawrlwytho recordiadau ac adnoddau. Mae gan bob ysgol a chlwstwr gefnogaeth Cwricwlwm i Gymru unigryw gan eu SIA, sydd yn amrywio, er enghraifft o ysgolion sy'n bartner yn cydweithio, monitro datblygiadau cwricwlwm, darparu adnoddau a hyfforddi a chefnogi cynllunio ar gyfer gweithredu rhwydweithiau rhanbarthol a lleol.

4.8. Mae GwE wedi bod yn unigryw fel consortia yn cydweithio gyda'r Athro Donaldson, sydd wedi gweithio ochr yn ochr â staff GwE ac ysgolion am y ddwy flynedd diwethaf, yn siapio datblygiad dysgu proffesiynol trwy gydol y cyfnod yma. Un o brif effeithiau'r gwaith yma yw rhwydweithiau rhanbarthol a lleol ysgolion yn canolbwyntio ar ddylunio cwricwlwm, asesiad a'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad, wedi'u dylunio i rannu arbenigedd, dulliau a meithrin cydweithio, creadigrwydd a brwdfrydedd. Mae sesiynau hyd yn hyn wedi canolbwyntio ar ddisgwyliadau, gan wneud synnwyr o'r cwricwlwm newydd, datblygiad, dylunio a chynllunio cwricwlwm. Mae Swyddogion Awdurdod Lleol o Sir Ddinbych hefyd yn mynychu ac yn cyfrannu at y rhwydweithiau, gan rannu eu

harbenigedd sylweddol ar draws ein rhanbarth, er enghraifft, mae'r grŵp lechyd a Lles yn cynnwys Ymgynghorydd Ysgolion Iach Sir Ddinbych (Atodiad 1 a 2).

4.9. Y tymor yma, mae swyddogion GwE wedi gwerthuso parodrwydd i weithio gydag ysgolion unigol. Mae trafodaeth gefnogol wedi gwerthuso: pa mor dda mae ysgolion wedi gwerthuso eu gweledigaeth mewn perthynas â ffactorau unigryw ysgolion; wedi deall ystyriaethau dylunio cwricwlwm sydd yn cynnwys elfennau gorfodol a pholisïau ieithyddol yr ysgolion; adolygu modelau cwricwlwm posibl; rôl addysgeg, datblygiad ac asesiad a sut maent yn bwriadu treialu a gwerthuso eu model eu hunain. Ar hyn o bryd, mae ysgolion cynradd Sir Ddinbych ar y trywydd i weithredu pob cam. Mae'r mwyafrif o ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig ar y trywydd i'w weithredu yn 2023, a dim ond un ysgol uwchradd fydd yn dewis cyflwyno'r cwricwlwm newydd ar gyfer 2022. Mae'r ysgolion nad ydynt ar y trywydd gyda phob cam yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r camau maent yn cael trafferth â nhw, yn dilyn trafodaethau gwerthuso Atodiad 3.

Dysgu a chefnogaeth broffesiynol yn y dyfodol

4.10. Oherwydd y pandemig, mae llawer o'r dysgu proffesiynol wedi bod ar-lein hyd yn hyn, ac mae GwE wedi datblygu cyfres o adnoddau i gefnogi hyn, ac maent wedi cael eu gwylio a'u lawrlwytho 125,000 gwaith hyd yn hyn. Mae cefnogaeth ychwanegol ar gael i ysgolion yn cynnwys cyfres o 'Bapurau Gwyntyllu' wedi eu hysgrifennu gan dîm GwE fel rhan o'r sesiynau diwygio gyda'r Athro Graham Donaldson (Atodiad 4). Mae cyfarfodydd rhwydwaith lleol yn dechrau cael eu cynnal wyneb yn wyneb, a gobeithio y bydd dysgu proffesiynol sydd wedi'i gynllunio at y dyfodol yn gymysgedd o sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb.

4.11. Bydd dysgu proffesiynol a chefnogaeth GwE ar gyfer gweithredu Cwricwlwm i Gymru yn parhau drwy 2022-23 gan ganolbwyntio ar bontio, datblygiad ac asesiad, cefnogaeth unigryw a dwys i ysgolion a chlystyrau sy'n briodol i'w parodrwydd i weithredu, cefnogi ein hysgolion uwchradd ar gyfer mis Medi 2023, cefnogi hunanwerthusiad yn unol â Chanllawiau Gwella Ysgolion newydd a datblygu dealltwriaeth o effaith trwy gofnodi cynnydd a llwyddiant. Ffocws pellach fydd ymgysylltu â chyfoedion drwy glystyrau a chynghreiriau, annog strwythur ar gyfer arweinwyr ac athrawon i gydweithio i werthuso eu hysgolion eu hunain ac ysgolion ei gilydd.

Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

4.12. Mae Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb yn ofyniad statudol yng Nghwricwlwm i Gymru a gan ddechrau ym mis Medi 2022 bydd yn orfodol i bob dysgwr 3 i 16 oed. Cafodd y canllaw newydd ei ryddhau i ysgolion ac awdurdodau lleol ym mis Ionawr 2022. Drwy'r Tîm Iechyd a Lles, mae'r awdurdod lleol wedi comisiynu ymarferydd arbenigol i weithio gydag arweinwyr Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb mewn ysgolion i'w cefnogi i ddatblygu dull ysgol gyfan i *ddylunio* eu cwricwlwm Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb, *ymgynghoriad*, *archwilio* a *chyflawni*. Mae'r ymarferydd ar gael i roi cyngor rhwng y sesiynau ac mae wedi llunio adnoddau sydd ar gael i bob ysgol yn Sir Ddinbych. Gorffennodd y gweithdai cynradd ar 23 Mai a bydd gweithdai uwchradd yn cael eu cwblhau erbyn diwedd y tymor. Mae GwE wedi comisiynu'r un arbenigwr i lunio templed o bolisi Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb y bydd ysgolion yn gallu ei addasu i'w hamgylchiadau eu hunain.

4.13. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ofyniad statudol o'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr o 3 i 16 oed. Yn wahanol i feysydd cwricwlwm eraill, mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn bwnc sy'n cael ei benderfynu'n lleol. Ar gais Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Sir Ddinbych, cynhaliwyd Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig ar 14 Mawrth 2022. Cytunodd y Gynhadledd y dylid mabwysiadu'r canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a luniwyd gan Lywodraeth Cymru fel y Maes Llafur Cytunedig a gwneud yr argymhelliad yma i'r ALl. Mae'r ALl wedi mabwysiadu'r argymhelliad yma ac fe'i gyflwynwyd i ysgolion ar 20 Mai. Mae ardal ar-lein diogel wedi'i greu sy'n cynnwys adnoddau cefnogol i bob ysgol ac mae ymgynghorydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg arbenigol yn cael ei ariannu gan yr ALl i gynghori a chefnogi ysgolion a'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae yna ddyletswydd statudol i weithredu agweddau gorfodol Cwricwlwm i Gymru o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a rhoi sylw i ganllaw statudol. Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu tuag at y flaenoriaeth gorfforaethol Pobl Ifanc.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae gweithredu a chefnogi cwricwla newydd yn rhan o waith yr ALl a GwE. Ni ddylai hyn effeithio ar wasanaethau eraill.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les gan nad oes yna gynnig na chais am benderfyniadau.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw ganlyniadau ariannol uniongyrchol yn codi o'r adroddiad hwn. Mae'r Cyngor yn cynnal proses gadarn ar gyfer gosod ei gyllideb sy'n anelu at gasglu unrhyw arbedion neu bwysau y mae gwasanaethaau yn eu nodi i'w trafod.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae gweithredu Cwricwlwm i Gymru yn cael ei adolygu gan Estyn yn rhan o'u gwaith archwilio. Mae'r awdurdod lleol a GwE eisoes yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn monitro a chefnogi ysgolion i'w weithredu, ac felly yn lleihau'r risgiau cysylltiedig.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2. Adrannau 7.3, 7.4.1 a 7.4.2 o Gyfansoddiad y Cyngor.